

# Y plot dwyfol

---

*“Oherwydd, cyn eu bod hwy, fe’u hadnabu, a’u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â’i Fab.” (adn.29)*

## **Beth am ddarllen Rhufeiniaid 8:28–39 ac yna myfyrio**

Ddoe fe ddaru ni ddweud bod stori dda yn cynnwys pedair elfen: Cymeriadau, plot, symudiad a dadleniad. Edrychwn heddiw ar yr ail o’r rhain: *plot*. Mae’r geiriadur yn diffinio ‘plot’ fel “cynllun o’r prif ddigwyddiadau neu faterion mewn drama, cerdd, nofel, a.y.y.b”. Rwyf wastad yn llawn chwilfrydedd pan fyddaf ar brydiau yn darllen gwaith nofelydd da a glân ei feddwl sydd yn cymryd gwybodaeth foel bodolaeth ac yn gwneud stori ohoni. Mae storiwyr sydd yn gallu gosod allan y plot a’i ddilyn ymlaen trwy ei amrywiol droadau wedi rhoi cryn foddhad i mi o’u darllen dros y blynyddoedd. Dydy’r math yma o sgwennu ddim o fewn fy nghyrraedd i. Dim ond un stori fer sgwennais i erioed yn fy mywyd a doedd gan yr un cyhoeddwr ddiddordeb yn y byd yn ei chyhoeddi!

Mae Duw, fel y buom yn ei ddweud, yn y busnes dweud stori yma hefyd. Ond beth yw ei blot ef? Fel hyn mae John Stott yn mynegi’r peth: “Mae Duw yn gwneud bodau dynol yn fwy dynol trwy eu gwneud yn debycach i Grist.” Fe fu i Dduw ein creu ni ar ei lun a’i ddelw ef ei hun yn y dechrau, ac fe fu i ninnau ddifetha hynny trwy ein pechod a’n hanufudd-dod. Erbyn hyn, mae o’n brysur yn ceisio adfer y llun a’r ddelw colledig.

Mae Duw mor frwd dros ei Fab Iesu Grist fel ei fod ef am wneud pawb yn debyg i’w Fab, nid o ran eu pryd a’u gwedd wrth gwrs, ond o ran eu cymeriad. Ac mae o’n defnyddio popeth sy’n digwydd inni – yn dda, yn ddrwg ac yn gyffredin – i’n gwneud yn debycach i Iesu. Y fath wahaniaeth a fyddai’n cael ei wneud inni pe caem afael ar y gwirionedd nad ydy Duw ond yn caniatáu i’n bywydau ni yr hyn mae ef yn gallu gwneud defnydd ohono.

## **Beth am fynd ymlaen i ddarllen:**

Jona 1:1–17; 3:1–10;

Actau 12:25; 13:13; 15:36–39;

2 Tim. 4:11

## **Meddyliwch am y cwestiynau hyn:**

1. Sut ddaru Jona ymateb pan gafodd ei brofi?
2. Sut ddaru perthynas Paul gyda Marc newid?

**Gweddï** Fy Nhad a’ m Duw, helpa fi i gael gafael ar y ffaith mewn gwirionedd – nad wyt ti ond yn gadael i mewn i’ mywyd i y profion a’r anawsterau hynny sydd yn gallu hyrwyddo dy bwrpas di o’ m gwneud i’n debycach i dy Fab. Yn enw Iesu. Amen.